# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Mawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2024/25** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Cyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig sy'n nodi'r meysydd gwaith i'w hadolygu yn ystod 2024/25** |

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, ynghyd â'r Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), yn mynnu y dylai Cynghorau gael Siarter Archwilio Mewnol ynghyd â Strategaeth a Chynllun Archwilio Blynyddol.

Caiff y cynllun ei baratoi mewn modd a fydd yn sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i gefnogi'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig yn cefnogi'r Siarter Archwilio Mewnol drwy grynhoi'r meysydd gwaith y bydd yr Adran Archwilio Mewnol yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2023/24 gan roi ystyriaeth i'r sefyllfa bresenol oherwydd y pandemig.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **CYMERADWYO'R Adroddiad** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Bod y Pwyllgor Archwilio'n fodlon y bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith digonol a phriodol er mwyn darparu sicrwydd realistig ddiwedd y flwyddyn, gan ychwanegu gwerth, a chynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.** |
| **Atodiadau:** | **Strategaeth a Chynllun Cyfamser Archwilio Mewnol 2024/25** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro |
| **Swyddog Adrodd:** | Alex Jenkins<br>Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol |
| **Dyddiad:** | 14 Mawrth 2024 |

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

LEGAL AND GOVERNANCE SERVICES



Mae’r adroddiad yma ar gael yn Gymraeg.

This report is available in Welsh.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# STRATEGAETH A RHAGLEN FLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2024/25

# INTERNAL AUDIT STRATEGY AND ANNUAL PLAN

Report Prepared by: Alex Jenkins, Corporate Manager - Internal Audit

Date of Issue: 21 January 2024

Presented to Governance and Audit Committee: 14th March 2024

# STRATEGAETH A RHAGLEN FLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL

# INTERNAL AUDIT STRATEGY AND ANNUAL PLAN 2024/25

CYFLWYNIAD

1.1 Fel sy'n ofynnol gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC), mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol (AM) yn cael ei gyflwyno a'i ddatblygu yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol.

1.2 Pwrpas Archwilio Mewnol, fel y'i diweddarwyd yn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, yw bod 'Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth trwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagolwg annibynnol, yn seiliedig ar risg, ac sy'n wrthrychol.'

1.3 Yn ôl y Safonau Byd-eang, mae Archwilio Mewnol yn cyfoethogi sefydliadau o ran:

- Cyflawniad llwyddiannus o'i amcanion.
- Llywodraethu, rheoli risg a phrosesu rheoli.
- Gwneud penderfyniadau a goruchwyliaeth.
- Enw da a hygrededd gyda'i rhanddeiliaid.
- Y gallu i wasanaethu bydd y cyhoedd.

1.4 Yn unol â'r gofynion hyn, rydym yn cyflawni ein gwaith archwilio mewnol gyda golwg ar gynorthwyo'r Cyngor i wireddu ei amcanion, ei nodau a'i flaenoriaethau a nodir yn Strategaeth y Cyngor drwy:

- Adolygu prosesau llywodraethu'r Cyngor.
- Gwerthuso effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor drwy roi sicrwydd annibynnol i reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLlA).
- Gwerthuso rheoli risgiau a heriau allweddol i'r Cyngor drwy roi sicrwydd i reolwyr a'r PLlA eu bod yn cael eu rheoli'n briodol
- Cynorthwyo wrth ddatblygu amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol.
- Darparu cyngor, ymgynghoriaeth a mewnwelediad mewn perthynas â gweithrediadau'r Cyngor a rhoi gwerth corfforaethol ychwanegol.

1.5 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r gwaith a wnaed i ddatblygu'r Strategaeth a'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-25. Mae'n rhoi sylw i:

- Ddatblygu'r Rhaglen Archwilio Mewnol
- Blaenoriaethu Gwaith
- Adnoddau
- Dibyniaethau
- Sicrwydd ac Adrodd
- Perfformiad a Gwella
- Meysydd i'w hadolygu
- Rhaglen Waith arfaethedig 2024/25

DATBLYGU’R CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Yn unol â’r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a’r SAMSC, mae’n ofynnol i’r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol i ddatblygu a gweithredu strategaeth a chynllun sy’n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad.

2.2 Amcan swyddogaeth Archwilio Mewnol yw i gefnogi gwasanaethau’r Cyngor y gyflawni gweledigaeth y Cyngor i ‘ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy’n cynnig gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, cefnogi amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a’n cymunedau.’

Bydd Archwiliadau o fewn y cynllun Archwilio Mewnol blynyddol yn cyd-fynd â Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor:

- hybu’r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- creu cymunedau gofalgar ac iach
- darparu’r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu, a
- creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd.

2.3 Cyfeirir at gynlluniau, polisïau, strategaethau ac amryw gofnodion, adroddiadau a gohebiaeth eraill y Cyngor wrth gyhoeddi’r rhaglen er sicrhau bod gweithgarwch Archwilio Mewnol yn gyson â nodau ac amcanion corfforaethol cyfredol y Cyngor.

2.4 Mae’r meysydd ar gyfer sylw a amlygwyd yn y Cynllun Archwilio Mewnol wedi’u creu gan gymryd i ystyriaeth amcanion y Cyngor, risgiau a nodwyd yng Nghofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor, asesiad risg blynyddol Archwilio Mewnol a thrafodaethau gyda rheolwyr.

2.5 Ymgymerwyd ag asesiad risg blynyddol Archwilio Mewnol ochr yn ochr â’n mapio sicrwydd parhaus i ddatblygu Rhaglen Archwilio Mewnol 2024/25. Roedd hon yn cymryd i ystyriaeth:

- Ganlyniadau gwaith archwilio blaenorol (y farn archwilio ddiwethaf a’r amser ers yr archwiliad diwethaf)
- Unrhyw newidiadau i systemau, prosesau, rheoliadau neu ddulliau cyflenwi gwasanaethau’r Cyngor.
- Heriau newydd a’r rhai sy’n dod i’r amlwg sy’n effeithio ar y Cyngor
- Blaenoriaethau corfforaethol o fewn Strategaeth y Cyngor
- Perthnasedd y gyllideb
- Prosesau rheoli risg y Cyngor gan gynnwys barn rheolwyr ar risgiau a chamau lliniaru yn eu meysydd cyfrifoldeb
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Ffynonellau sicrwydd allanol eraill a chanlyniadau’r sicrwydd allanol hwn
- Y gofyniad i sicrhau bod digon o sylw i gefnogi barn archwilio flynyddol
- Gwaith archwilio a ohiriwyd o 2023/24

2.6 I osgoi dyblygu gwaith, caiff y meysydd hynny y mae archwilwyr neu reoleiddwyr eraill wedi ymgymryd ag adolygiadau ynddynt neu wedi bwriadu ymgymryd ag adolygiadau ynddynt, eu diystyru o gynllun gweithredu Archwilio Mewnol y flwyddyn gyfredol.

2.7 Bydd Archwilio Mewnol yn asesu ei waith yn barhaus gan roi ystyriaeth i’r newidiadau yn anghenion a blaenoriaethau’r Cyngor yn rheolaidd.

2.8 Ailedrychir ar y Strategaeth a’r Rhaglen Archwilio Mewnol bob blwyddyn i gadarnhau blaenoriaethau cyfredol o ran cwmpas archwilio mewnol a datblygu rhaglen archwilio mewnol weithredol am y flwyddyn.

<u>BLAENORIAETH GWAITH</u>

3.1 Rhoddir blaenoriaeth o ran y gwaith gyda’r rhaglen Archwilio Mewnol i risgiau yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Fe fydd 80% o’r risgiau yn y Cofrestr Risg Corfforaethol yn cael eu harchwilio dros gyfnod treigl o 2 flynedd.

3.2 Bydd pob archwiliad blaenoriaeth uchel ac adolygiadau blynyddol a amlygwyd yn Asesiad Risg Archwilio Mewnol a mapio sicrwydd yn cael eu cynnal yn 2024/25.

3.3 Bydd pob archwiliad blaenoriaeth canolig yn cael ei adolygu’n barhaus. Gall unrhyw waith sy’n angenrheidiol er mwyn ymateb i flaenoriaethau neu risgiau newydd gael blaenoriaeth dros yr adolygiadau blaenoriaeth canolig.

3.4 Bydd pob archwiliad sydd wedi’i gwblhau ac eitemau ‘adweithiol’ a ychwanegwyd i’r cynllun yn cael eu hadrodd i’r PLIA yn yr adroddiad cynnydd archwilio mewnol.

3.5 Lle y bo’n berthnasol o hyd, bydd y rhaglen archwilio yn cynnwys adolygiadau a ddygwyd ymlaen o raglen archwilio’r flwyddyn flaenorol a bydd unrhyw archwiliadau arferol e.e. ardystiadau grant sy’n sensitif i amser hefyd yn cael eu cynnwys, ond blaenoriaethir y gwaith yn ddibynnol ar risg.

3.6 Mae Archwilio Mewnol yn cynnal Map Sicrwydd sy’n cynnwys sicrwydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Caiff y Map Sicrwydd ei ddiweddaru’n rheolaidd sy’n cadw Archwilio Mewnol yn gyfredol o ran unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg, a bydd yn galluogi’r gwasanaeth i roi mwy o ffocws ar ei adnoddau mewn meysydd y rhoddir y flaenoriaeth fwyaf iddynt ac sydd â’r risg fwyaf.

3.7 Mae Archwilio Mewnol yn cydlynu Asesiad Risg Gwrth-Dwyll blynyddol er mwyn cael sicrwydd a nodi rheolaethau sydd yn eu lle i ganfod, atal a nodi twyll.

3.8 Mae canlyniadau’r Asesiad Risg Gwrth-Dwyll yn ffurfio Cofrestr Risg Twyll lle gellir adnabod a blaenoriaethu ardaloedd sydd angen cyngor Archwilio Mewnol neu fewnbwn neu adnoddau ychwanegol. Mae’r wybodaeth hon hefyd wedi cael ei hystyried wrth greu’r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol.

3.9 Felly, dim ond syniad y gall y rhaglen archwilio ei roi gan y gall pob gwasanaeth/system sy’n gysylltiedig â risg newid yn ystod y flwyddyn. Felly, bydd yn ofynnol adolygu’r rhaglen yn rheolaidd wrth ymateb i unrhyw ddatblygiadau a mentrau y bernir eu bod yn berthnasol.

3.10 Lluniwyd rhaglen 2024/25 ar gyfer y lefel bresennol o adnoddau (fel y nodir yn Rhan 4). Nid yw’r diwrnodau fesul archwiliad wedi’u cofnodi yn y rhaglen a geir yn Atodiad 1, gan y bydd diwrnodau’n cael eu neilltuo i bob archwiliad yn ddibynnol ar gwmpas a blaenoriaeth er sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu. Fodd bynnag, dyrannwyd diwrnodau dangosol i feysydd archwilio yn ôl blaenoriaeth a chwmpas y maes gwaith.

ADNODDAU

4.1 Cyflenwir darpariaeth Archwilio Mewnol gan y tîm mewnol yn ystod 2024/25 sy'n cynnwys chwe swyddog (gan gynnwys y RhCAM) ynghyd â rhan o amser y Swyddog Llywodraethu a'r Cynorthwyydd Llywodraethu ac Archwilio (0.5 FTE ar gyfer Archwilio Mewnol).

4.2 Mae adnoddau llawn yn y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi 784 diwrnod archwilio ac ystyrir bod digon o sgiliau ac arbenigedd i ddarparu ystod lawn o archwiliadau i roi sicrwydd yn eu cylch i'r PLlA ar ddigonolrwydd rheoliadau mewnol, rheoli risgiau a phrosesau llywodraethu corfforaethol sydd ar waith.

4.3 Ystyrir bod lefel yr adnoddau yn ddigonol i gyflenwi'r farn sicrwydd flynyddol ond gall fod angen defnyddio adnoddau allanol i gyflenwi archwiliadau TGCh mwy technegol petai gofyn am hynny.

4.4 Mae Archwilio Mewnol yn cwmpasu'r holl amgylchedd rheoli o fewn y Cyngor gan gynnwys y systemau ariannol a'r rhai heb fod yn ariannol. Aseswyd lefel y gofynion o ran adnoddau er sicrhau y cyflenwir gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol ac effeithlon i'r Cyngor.

DIBYNIAETHAU

5.1 Mae Archwilio Mewnol yn cydnabod bod perthynas waith dda a cyfathrebu effeithiol yn allweddol i gyflawni ei waith mewn dull cynhyrchiol ac effeithlon. Felly, bydd Archwilio Mewnol yn ceisio gweithio a chydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys rheolwyr, Aelodau a rheoleiddwyr.

5.2 Bydd y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn ymgynghori a'r rheolwyr wrth gynllunio'r archwiliad a chyflwynir y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol i'r Grŵp Arweiniol.

5.3 Er mwyn darparu barn archwilio blynyddol, bydd angen i'r RhCAM dderbyn sicrwydd digonol o gwblhau Cynllun Archwilio Mewnol llwyddiannus. Mae cydweithrediad gan wasanaethau a swyddogion eraill y Cyngor yn hanfodol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus ac ar amser.

5.4 Bydd y RhCAM yn rhoi gwybod am unrhyw amrywiadau i'r cynllun neu risgiau posibl i gwblhau'r cynllun Archwilio Mewnol yn llwyddiannus i'r PLlA.

SICRWYDD AC ADRODD

6.1 Caiff prif archwilydd ei benodi i bob adolygiad archwilio er mwyn cynorthwyo i ddatblygu cwmpas pob archwiliad. Gellir trafod cwmpas archwiliad gyda rheolwyr ar ddechrau'r adolygiad er sicrhau y rhoddir sylw i risgiau allweddol, i roi sicrwydd ystyrlon i'r gwasanaeth ac ychwanegu gwerth cymaint ag sy'n bosibl; neu, bydd yr adolygiad yn cael ei seilio ar fater llywodraethu, rheoli neu risg a ddaeth â'r system/gwasanaeth i sylw Archwilio Mewnol.

6.2 Bydd dogfennau cwmpasu yn cael eu darparu i reolwyr sy'n amlinellu'r cwmpas y cytunwyd arno, amcanion yr archwilia'r a'r Amcanion Lles Corfforaethol perthnasol.

6.3 Caiff adroddiadau archwilio mewnol drafft eu cyhoeddi ar ddiwedd adolygiad i'w trafod gyda rheolwyr. Cyhoeddir yr adroddiadau archwilio terfynol ar ôl cytuno ar yr adroddiadau drafft ac maent yn cynnwys cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau sy'n rhoi sylw i unrhyw weithredu sy'n angenrheidiol o ran rheolaeth gan nodi'r rhai sy'n gyfrifol am eu gweithredu a'r amserlen. Byddant hefyd yn nodi'r sicrwydd Archwilio Mewnol a ddarparwyd. Os nad yw rheolwyr yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod ymadael, cyhoeddir adroddiadau drafft yn nodi hyn a bydd camau dilynol ar unrhyw weithredu angenrheidiol, fel y bo'n briodol, ar ddyddiad yn y dyfodol.

6.4 Mae cyflawni'r camau gweithredu rheolwyr yn cael ei olrhain gan Archwilio Mewnol fel rhan o Raglen Gweithredu Rheoli Archwilio Mewnol, fodd bynnag, cyfrifoldeb y rheolwyr yw gweithredu'r camau i fynd i'r afael â'r canfyddiadau.

6.5 Mae'r lefelau sicrwydd a ddefnyddir gan archwilio mewnol fel a ganlyn:

| Lefel | Canllaw |
|---|---|
| Uchel | Dim camau gweithredu sylweddol neu sylfaenol yn ofynnol. |
| Sylweddol | Dim camau gweithredu sylfaenol yn ofynnol. Camau gweithredu sylweddol cyfyngedig. |
| Cymedrol | Nifer o gamau gweithredu sylweddol. |
| Cyfyngedig | Nifer o gamau gweithredu sylweddol/sylfaenol. |

6.6 Bydd sicrwydd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar waith a gynlluniwyd a gwaith adweithiol, rheolwyr yn gweithredu'r camau gweithredu rheolwyr, a ffynonellau eraill o sicrwydd a nodwyd wrth fapio'r sicrwydd Archwilio Mewnol a chofrestr gwrth-dwyll. Yna bydd yn cael ei adrodd i'r PLIA yn Adroddiad Blynyddol y RhCAM ar ddiwedd y flwyddyn ac yn bwydo mewn i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor (DLlB).

6.7 Mae'r PLIA yn derbyn adroddiadau cynnydd archwilio mewnol yn rheolaidd er gwybodaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi:

- Archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod ynghyd â'r farn sicrwydd a roddir ac unrhyw gamau gweithredu sylweddol a sylfaenol.
- Manylion archwiliadau a gyhoeddwyd â barn sicrwydd gyfyngedig.
- Cynnydd o ran gweithredu'r camau rheoli y cytunwyd arnynt.
- Mesur perfformiad archwiliadau mewnol yn erbyn targedau perfformiad mewnol.
- Cynnydd yn erbyn y rhaglen archwilio flynyddol.

PERFFORMIAD A GWELLIANT

7.1 Mae’r RhCAM yn cyfrannu at broses Perfformiad Corfforaethol y Cyngor ac yn creu Cynllun Busnes blynyddol ar gyfer y gwasanaeth sy’n amlinellu tasgau allweddol i’w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

7.2 Cyflawni cwmpas wedi’i gynllunio, cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid o safon a dangos effeithiolrwydd, mae’r Adran yn cydymffurfio â Chenhadaeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, fel y’u cyflwynir yn y Siarter drwy raglen sicrwydd ansawdd a gwella benodedig fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd AM hefyd yn gweithio tuag at weithredu newidiadau i gydymffurfio gyda’r Safonau AM Byd-eang erbyn y dyddiad priodol ar gyfer cydymffurfiaeth ar 9 Ionawr 2025.

7.3 Adroddir ar Gynllun Gweithredu sy’n ganlyniad i hunanasesiad archwilio mewnol 2022/23 ynghyd â gwelliannau dynodedig eraill i’r PLIA ar ôl diwedd y flwyddyn a chaiff ei fonitro a’i ddiweddaru drwy gydol y flwyddyn, ac adroddir arno i’r PLIA yn rhan o’r adroddiadau cynnydd chwarterol.

7.4 Mae’r targedau perfformiad ar gyfer y gwasanaeth wedi’u gosod, yn seiliedig ar ddangosyddion meincnodi CIPFA a’r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd:

| Dangosydd | Mesur | Targed |
|---|---|---|
| Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd *[1] | N/A | - |
| Canran y camau gweithredu a dderbyniwyd yn erbyn y rhai a wnaed | % | 80 |
| Nifer y diwrnodau rhwng cynnal y cyfarfod terfynol a chyhoeddi’r adroddiad terfynol ar gyfartaledd | days | 5 |
| Canran yr ymatebion HRhA*[2] sydd o leiaf yn foddhaol | % | 80 |
| Canran y casgliadau archwilio sy'n mynd i'r afael ag Amcanion Llesiant y Cyngor | % | 75 |
| Canran y risgiau a rheolaethau allweddol y Cyngor a adolygwyd o fewn 2 flynedd. | % | 80 |
| Canran y cynllun Archwilio Mewnol a gwblhawyd ar amser. | % | 75 |

1 Nifer y targedau a osodwyd – er gwybodaeth yn unig

2 Holiaduron Rheoli Ansawdd

MEYSYDD I'W HADOLYGU 2024/25

8.1 Mae'r canlynol wedi'u nodi fel prif feysydd gwaith ar gyfer y cynllun archwilio mewnol gweithredol 2024/25:

Cofrestr Risg Corfforaethol

8.2 Rhoddir blaenoriaeth i ddarparu sicrwydd ar risgiau sydd â sgôr 'Coch' o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol o fewn cyfnod treigl o 2 flynedd. Eleni, bydd sylw yn cael ei flaenoriaethu tuag at risg R005 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, R009 Llywodraethiant Gwybodaeth, R019 Newid Hinsawdd ac Erydiad Arfordirol / Llifogydd, R020 Llosgach Coed Ynn a R024 Seiber-wytnwch.

Gwaith Asesu Risg

8.3 Bydd AM yn cynnal adolygiadau o wasanaethau, systemau a gweithdrefnau yn unol a'r asesiad risg a'r mapio sicrwydd a wneir a/neu ofynion y gwasanaethau a fydd yn cynnwys gwaith ar Hysbysiadau Tal cosb, gwasanaeth Cofrestryddion ac Ysgolion.

Rheoli Risg

8.4 Mae gan Archwilio Mewnol rôl bwysig wrth asesu cydymffurfiaeth gwasanaethau ag arferion da o ran rheoli risgiau a digonolrwydd y rheoliadau sydd ar waith i liniaru risgiau. Mae Archwilio Mewnol hefyd yn cefnogi'r protocolau rheoli risgiau corfforaethol drwy gynnal adolygiadau cyfnodol o'r broses, a'r Cofrestrau Risg Corfforaethol a Gwasanaethau

Gwaith Gwrth-dwyll (gan gynnwys NFI)

8.5 Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i gyfranogi yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n paru data ar draws sefydliadau a systemau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion twyllodrus neu anghywir/gwallus.

Caiff hyn ei gyflenwi drwy adolygiadau paru data gan ddefnyddio'r system feddalwedd Active Data, a gwaith gwrth-dwyll arall fel:

- Ymgymryd ag ymchwiliadau i adroddiadau ar dorri rheoliadau'r Cyngor neu weithgarwch troseddol h.y. twyll yn erbyn y Cyngor.
- Ymchwilio i adroddiadau gan staff neu rywrai eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau ar ran y Cyngor, ac aelodau o'r cyhoedd, ynghylch achosion o dorri rheolau neu reoliadau posibl, camymddwyn neu gam-drin twyllodrus o awdurdod.
- Cyfeirio amheuaeth ynghylch gweithgarwch troseddol i'r heddlu, yn unol â'r Polisi Llygredd a Gwrth-dwyll a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.

### Archwiliadau Rheoli Allweddol

8.6 Mae effeithiolrwydd rheoliadau a rheoli risgiau o fewn systemau ariannol allweddol y Cyngor yn parhau yn rhan greiddiol o waith Archwilio Mewnol. Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ac, os yw'n berthnasol, i lywio gwaith Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn awr yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel rheol, fel y cytunwyd gydag Archwilio Cymru.

### Moeseg

8.7 Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau llywodraethu ar y diwylliant moesegol o fewn y Cyngor gan gynnwys y Cod Ymddygiad a Datgan Buddiannau.

### Archwiliad TGCh

8.8 Yn ogystal â rhoi sicrwydd ynghylch asesiadau allanol o TGCh bydd Archwilio Mewnol, os yw'n bosibl, yn cychwyn ar ei asesiadau ei hun ar sail yr hyfforddiant archwilio TGCh a dderbyniwyd.

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

8.9 Bydd AM yn adolygu ac asesu cynnydd y Cyngor wrth wreiddio'r gweithredoedd ym mhrosesau'r Cyngor.

### Grantiau

8.10 Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i adolygu grantiau a dderbynnir lle nad oes sicrwydd gan Archwilio Mewnol neu lle y bo pryderon ynghylch y rheoliadau gweithredu yn y trefniadau prosesu. Rhoddir sicrwydd hefyd ar gydymffurfiaeth â thelerau ac amodau, pan ofynnir amdano.

### Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

8.11 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddangos fod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol. Mae Archwilio Mewnol yn cefnogi ac adolygu'r fframwaith llywodraethu corfforaethol ac mae'n rhoi sicrwydd ei fod yn gweithredu'n effeithiol drwy fynd i'r gweithdai ar y cyd i swyddogion/Aelodau a chynnal adolygiadau archwilio.

Prosiectau Newydd

8.12 Dylai holl brosiectau'r Cyngor gael eu darparu mewn modd gorfforaethol gyson. Mae Archwilio Mewnol yn cefnogi'r gofyniad hwn drwy fynd i gyfarfodydd y paneli rheoli prosiectau corfforaethol a chynnal adolygiadau archwilio.

Gweithdai Rheolwyr Corfforaethol a Chymorth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

8.13 Dylai unrhyw newidiadau corfforaethol gyflawni ei nodau a'i amcanion penodedig. Mae Archwilio Mewnol yn cefnogi'r gofyniad hwn drwy gynnal adolygiadau archwilio a sicrhau y gwireddir gwerth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Gwaith Adweithiol ac Ymgynghori

8.14 Yn ychwanegol at y gwasanaeth sicrwydd wedi'i gynllunio a ddarperir, bydd Archwilio Mewnol yn darparu adolygiadau ar sail adweithiol os daw risgiau i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Bydd Archwilio Mewnol hefyd yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd i swyddogion mewn perthynas ag ystod o faterion gan gynnwys cydymffurfiaeth â pholisïau, gofynion rheolaeth fewnol ac ati.

RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG 2024/25

9.1 Mae'r cynllun archwilio mewnol cychwynnol sy'n nodi'r meysydd gwaith sydd i'w cyflawni ar gyfer y Cyngor yn ystod 2024/25 wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r cynllun yn seiliedig ar risg ac mae'n nodi y nifer y diwrnodau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer pob un o'r meysydd gwaith allweddol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys nifer y diwrnodau a ddyrannwyd yn y cynllun ar gyfer gwaith adweithiol sydd wedi'i asesu o ran risg.

9.2 Bydd y Rheolwr Corfforaethol, Archwilio Mewnol a/neu Archwilio Mewnol yn adrodd ar gynnydd yn chwarterol ac yn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar unwaith os yw'n amau y bydd unrhyw effaith ar adnoddau yn debygol o gael effaith andwyol ar y farn archwilio.

ATODIAD I

| Maes Archwilio | Math o Archwil | Diwrnodau a gynllunwyd |
|---|---|---|
| Archwiliadau'r Gofrestr Risgiau | Sicrwydd | 200 |
| • R005 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig | | |
| • R009 Llywodraethiant Gwybodaeth | | |
| • R019 Newid Hinsawdd | | |
| • R020 Llosgach Coed Ynn | | |
| • R021 Ffosffadau | | |
| • R022 Recriwtio a Chadw | | |
| • R023 Diwedd Cyfnod Systemau | | |
| • R024 Seiber-wytnwch | | |
| Gwaith Asesu Risg - archwiliadau a nodwyd o asesiad risg Archwilio Mewnol a Mapio Sicrwydd | Sicrwydd / System | 150 |
| Archwiliadau Adweithiol | Adweithiol | 100 |
| Rheoli Risg | Sicrwydd | 30 |
| Camau Dilynol ar Weithgarwch Rheoli | Camau Dilynol | 40 |
| Gwrth-dwyll (gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol) | Gwrth-dwyll | 55 |
| Rheolaethau Allweddol - rhaglen dreigl | RhA | 40 |
| Moeseg | Gwrth-dwyll | 20 |
| Archwiliad TGCh | TGCh | 25 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | System | 30 |
| Grantiau | Grant | 20 |
| Archwiliadau Anrhydeddus | Anrhydeddus | 10 |
| Archwiliadau Cyfrifon Blynyddol | Cyfrifon | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Sicrwydd | 10 |
| Llywodraethu Corfforaethol a Phrosiectau | Llywodraethu | 34 |
| Rheoli Corfforaethol / Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Sicrwydd | 15 |
| **Cyfanswm diwrnodau** | | **784** |

A Jenkins, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol 21 Ionawr 2024